YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 39. RHIF 9 | CHWEFROR 2018 | 50c

# LLAWENYDD Y NADOLIG



*Myfyrwyr yn y Cinio Nadolig - sef Ela, Catrin, Gwenno a Mared*




*Ar Drothwy'r Nadolig gan Nan yn darllen stori William Owen*



*Rhiannon, Anne, Ifor a Margaret – y Betheliaid gyda'r carolau*



*Alun a Gemma yn cyflwyno canhwyllau o Fethlehem i'r capel ar ôl eu taith yno.*



*Teulu Pauline a gweddw David Morris*

***Lluniau o gamera Dr. John G. Williams***

**YN Y RHIFYN HWN -**

Golygyddol
(Cyfarchion Yr Angor am 2018)
Newyddion o Bethel, Seion,
Bethania, Cymry Manceinion, Lerpwl,
Birkenhead,
Ysgrif goffa am Miss Megan Roberts

Golygyddol

# CYFARCHION YR ANGOR AM 2018 – gan D. Ben Rees

Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch sy'n darllen ein papur bro a defnyddiaf y golygyddol hwn i ddweud gair am ein ffordd o weithredu. Deil ambell un sy'n ffonio Garth Drive i gredu fod gan y papur bro ei swyddfa ond nid yw hynny'n wir! Y gwir ydyw na chaiff neb ohonoch sy'n gysylltiedig â'r *Angor* unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ar wahan i'r treuliau. Y mae anfon y deunydd yn fisol i'r cysodydd yn ymylu at ddwy bunt y tro. Arbedwyd gyda'r proflenni gan fod yr argraffydd yn medru anfon hyn dros y rhyngrwyd a byddaf yn treulio oriau yn cywiro ac yn anfon y cyfan yn ôl i Lanuwchllyn. Cymer hi ddiwrnod cyfan i osod *Yr Angor* at ei gilydd, llunio'r golygyddol, gosod y lluniau ar wahanol dudalennau, meddwl am eiriau addas ar gyfer pob llun, darllen a golygu yr adroddiadau a gofalu fod gennym o leiaf 12 i 14 tudalenau i lenwi'r gofod. Os bydd rhaid cysylltu fe gymer hynny amser, gan y gall gymryd amser i ffonio o gwmpas. Yn anffodus nid oes gennym ohebwyr proffesiynol. Felly yr ydym yn dibynnu ar lond dwrn i ysgrifennu am weithgarwch y gymuned ym Manceinion a Lerpwl. Caiff Manceinion ofal Eleri Edwards ac Anne Hunt gyda Elwyn Evans yn gofalu am y lluniau. Ar y Glannau gofelir am Benbedw gan Eirwen Sergeant a Seion gan Iris Hughes-Jones (a blin gennym glywed ei bod hi yn Ward 18 Ysbyty Arrowe Park) ac ambell lun gan Terry O'Neill. Yn Lerpwl bydd Beryl Williams yn cofnodi hanes Cymry Lerpwl, Nan Hughes Parry ar eglwys Bethel, y Golygydd am Bethania, a Dr. John G. Williams yw'r ffotograffydd pennaf. Gofala ef anfon lluniau digidol mewn ffurf (CD) yn hytrach na'u hargraffu a thrwy hynny ofalu fod y lluniau o safon uchel. Colofnydd cyson arall yw Elwyn Parry, prifathro wedi ymddeol o Gaerffili, a chyfaill i mi ers 1962 pan symudais i weinidogaethu yn Cwm Cynon. Y mae y Myfyrdodau yn hynod o dderbyniol.

***Oes gennych chi stori, ysgrif neu lythyr i'r Angor?***

Y mae croeso cynnes i bawb i gyfrannu i'r *Angor* ac ni chaiff neb ei wrthod ar sail iaith na chystrawen ond nid oes croeso i ysgrifau rhagfarnllyd na phropaganda digyfaddawd. **Am fod y gofod yn brin mae'n rhaid i ni ofyn i chwi gadw eich ysgrifau, llythyron yn fyr a'u crynhoi i ddim mwy na 600 o eiriau cyn eu gyrru.** Os ydych yn anfon ysgrif goffa dylid amgau llun o'r ymadawedig, ond fe wneir eithriadau os nad yw'r person a goffheir yn meddu ar deulu agos.

***Lluniau*** – Anfonwch luniau ar gyfer cael eu cyhoeddi ataf, a rhowch enwau y bobl sydd yn y llun, a'ch enw chwi a'ch cyfeiriad, a nodyn os ydych am gael y lluniau yn ôl.

***Hysbysebion*** – Nid oes gennym Swyddog Hysbysebion, ac felly rhaid am y tro anfon yn syth ar y we – i dbenrees@gmail.com neu benatgarthdrive@talktalk.net neu i 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW. Caiff yr hysbysebwyr dudalen gyfan am £60, hanner tudalen £30, chwarter tudalen £15 a £2 y cm ar hysbysebion un golofn, a £4 y cm ar gyfer hysbysebion dwy golofn. Mae'n bosibl i ni gynnwys eich taflen yn *Yr Angor* am £60, ac yr ydym yn gwerthu yn dda o Ellesmere Port i Fanceinion, i Lundain, y Glannau, trwy Gymru gyfan. Mae bron hanner *Yr Angor* yn cael ei anfon trwy'r post, a diolchir yn gynnes iawn i'n Hysgrifennydd, Ben Hughes, Childwall am ei gymwynas.

Gweithiwr di-arbed arall ydyw Roderick Owen, ein Trysorydd a'n Dosbarthwr. Arbedir arian mawr gan ei fod yn cludo y papur o'r Bala ac yn dosbarthu'r papur i Benbedw, Manceinion a Lerpwl. Y mae ein Cadeirydd, Dr. John G. Williams yn ofalus dros ben ac yn llywio y Cyfarfod Blynyddol ym mis Gorffennaf a chyfarfod dechrau'r flwyddyn. Gwelir ffrwyth y rhai a ymatebodd i'r syniad o gyflwyno £10 y mis am 18 mis, ac felly bydd y Gronfa ar gael i wynebu'r costau'r dathlu yn Mehefin 2019. Nid oes gennym ddyddiad eto ond bydd rhaid paratoi am hyn yn fuan. Nid ydym fel Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod yn fisol, ond diolchir o galon i bob un sydd yn rhan o'r tîm sydd yn cynhyrchu *Yr Angor*. Da cael y cyfle i adrodd peth o'r stori.

## APÊL YR ANGOR AR GYFER DATHLIAD Y DEUGAIN MLYNEDD O'R PAPUR BRO, MEHEFIN 2019

**Diolchir i'r canlynol am y gefnogaeth a dderbyniwyd hyd yn hyn ac a ddeilliodd fel canlyniad i'r Apêl a gafwyd yn rhifynnau Tachwedd 2017 a Rhagfyr 2017 /Ionawr 2018 o'r Angor**

1)* Parchedig Eleri Edwards, Manceinion y swm o.................£50
2) W. Meirion Evans a Eirlys Evans, Allerton, Lerpwl y swm o ......................................................................... £180
3) Elwyn a Eflyn Evans, Manceinion y swm o....................£180
4)* Yr Athro Mari Lloyd Williams, Prifysgol Lerpwl y swm o .........................................................................£180
5)* John a Marian Lyons, Pentref Knowsley y swm o ...........£180
6) Miss Mair Powell, West Derby, Lerpwl y swm o..............£180
7) Parchedig Athro D.Ben Rees a Mrs Meinwen Rees, Allerton, Lerpwl y swm o ................................................£180
8) Hywel a Margaret Roberts, Caernarfony swm o ..............£180
9) Dr John Williams a Beryl Williams, Allerton, Lerpwl, y swm o ..............................................................£180
10) Dafydd Ll. Rees, Llundain a'i frawd Hefin E.Rees, QC, Harpenden y swm o ..........................£180
11)* Cronfa Dewi Sant, Lerpwl (trwy law y Trysorydd J. P. Lyons) y swm o .......................................................£180
12)* Mr Ken Williams, Gateacre, Lerpwl y swm o................. £200

**Cyfanswm..................£2,032**

(* y pump sydd wedi cyfrannu gydag un taliad, y gweddill yn talu bob mis am ddeunaw mis)

Y mae yn rhy hwyr i anfon ffurflen archebu i'r banc i gyfrannu i'r Gronfa bwysig hon erbyn hyn, ond y mae'n bosibl i wneud taliad am unrhyw swm i fyny i'r adeg pan fydd y cyfan yn dirwyn i ben yn mis Mehefin 2019 pan y cynhelir y dathlu ac yr ymddengys y gyfrol ar Ddeugain Mlynedd yr Angor o dan olygyddiaeth Dr D. Ben Rees. Bydd enwau pawb a gyfranodd i'r Gronfa hon yn ymddangos yn y gyfrol honno. Gellwch gysylltu gyda fi unrhyw adeg a byddaf yn barod iawn i dderbyn unrhyw rodd a ddymunir ei roddi.

*Gyda diolch, Dr John G. Williams*
*(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Angor)*
*3 Ionawr 2018.*

Newyddion o

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Cymry Manceinion

Yn gyntaf oll mae Cymry Manceinion yn cofio at bawb o ddarllenwyr *Yr Angor* yn gynnes iawn ac yn dymuno blwyddyn newydd heddychlon a hapus i chi. Boed i eiriau y Parch Humphrey Jones Davies fod yn neges gymwys i ni gyd:

Ar drothwy blwyddyn newydd
Yr alwad eglur yw
Ymostwng gyda'n gilydd
Ger gorsedd gras ein Duw.

Cyffesu ein camweddau
A'n rhan yn anhrefn byd,
Edifarhau mewn dagrau
Sy'n gweddu inni i gyd.

Duw atal Di dy gerydd,
A thyn ein byd o'i bla,
Fel byddo'r flwyddyn newydd
Yn 'Flwyddyn Newydd Dda'!
*(Rhan o'i delyneg 'Blwyddyn Newydd')*

Rydym ni newydd wedi dathlu'r Ŵyl a chawsom wasanaeth Nadolig dwyieithog bendigedig yn Altrincham ar Ragfyr 17 gyda llawer yn cymryd rhan mewn darlleniadau a charolau gydag unawdau hefyd. Roedd yna gynulleidfa deilwng a llawer o hen ffrindiau yn mynychu. Diolch i Mrs Lilian Garrett am gyfeilio ac i bawb a gymerodd rhan. Cafwyd casgliad at waith Cymorth Cristnogol.

Yn gynnar ym mis Rhagfyr, cynhaliwyd cinio Nadolig y Dosbarth mewn gwesty a daeth nifer da i fwynhau'r achlysur a chymdeithasu yn llawen. Cyn y Nadolig hefyd daeth grwp o gerddorion ifainc o Dde Affrica i bractisio yng nghapel Noddfa Oaker Avenue, Didsbury ar gyfer eu cyngherddau yn y wlad hon. Roedd yn fraint i'w croesawu a chlywed eu gwaith. Roeddan nhw yn llawn bywyd a bwrlwm ac yn chwarae yn arbennig o dda.

Ar Sul olaf y flwyddyn, yn ein gwasanaeth cawsom gyfle i ystyried y gorffennol a hefyd, bywydau Mair Mam Iesu, Simeon ac Anna, y ffyddloniaid rheiny oedd yn disgwyl yn eiddgar am ddyfodiad Iesu ac yn ei groesawu yn llawen (gweler Luc 2:22-40). Gwelsom yr angen am ddyfalbarhad cariadus a disgwylgar yn y rhai hŷn, a'r dewrder a'r cariad oedd yn y fam ifanc a rhain i gyd yn rhinweddau pwysig i bawb o bob oed. Gofynnwn am ras i efelychu'r bobl dduwiol hyn yn ein bywyd cristnogol heddiw ac yn y flwyddyn newydd.

Mae Cymdeithas Cymry Manceinion wedi cael tymor da a chyfarfodydd llwyddiannus gyda nifer da yn dod. Ym mis Tachwedd roedd yr anerchiad yn dangos rhywbeth o'r cysylltiad rhwng Cymru a Madagascar. Eleri Edwards oedd yn cyflwyno'r noson. Fe fydd eglwysi Protestannaidd Madagascar ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (a gobeithio holl Eglwysi Cymru gyda hwy) yn dathlu dauganmlwyddiant yn y flwyddyn 2018 i gofio bod y cenhadon Cymraeg Protestannaidd cyntaf wedi glanio ar yr Ynys Fawr ar 18 Awst 1818 ac wedi llwyddo sefydlu Eglwysi yno. Roedd yn hanes ddifyr a gwerthfawrogodd y gwrandawyr y *power point*.

Terfynnodd y flwyddyn 2017 gyda noson Nadoligaidd arbennig iawn gydag eitemau tymhorol gan Mr Trefor Davies, Mrs Lilian Garrett a Mr Glynn Morris. Cafwyd cerddoriaeth amrywiol a hyfryd, gydag unawdau a deuawdau yn ganeuon, ac yn offerynnol. Roedd yn noson wych a diolch am y rhai talentog hyn sydd yn barod i rannu eu doniau i'n difyrru a'n hysbrydoli. Edrychwn ymlaen at y rhaglen yn y misoedd nesaf.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Blwyddyn Newydd Dda i'r holl aelodau a charedigion yr Achos ym Methel. Diolch ein bod i gyd wedi medru camu dros drothwy'r flwyddyn newydd.


*Eryl gyda'r dorch*

Edrychwn ymlaen yn hyderus ac yn barod i weld ein cyfle i wasanaethu yn yr Eglwys a thu allan yn y gymuned.


Bu misoedd Tachwedd a Rhagfyr yn fwrlwm o ddigwyddiadau diddorol a chyffrous a dyma ond baslun ohonynt.

Ar y dydd olaf o Hydref cafwyd noson ddiddorol iawn yn y Gymdeithas Lenyddol ar 'Mae yn fy Meddiant' o dan lywyddiaeth Mair Roberts. Cyflwynodd Beryl Williams, Eryl Dooling, Rhiannon Liddell a W. Meirion Evans arddangosfa o eitemau oedd yn rhan o fywyd eu teuluoedd ac yn werthfawr yn eu golwg. Daeth Beryl ar draws llawer o drugareddau wrth glirio tŷ ei mam gan na fyddai hi byth yn taflu dim byd, a'r hyn oedd yn fraw i Beryl a'i chwiorydd oedd canfod ffrog briodas eu mam yng nghefn y cwpwrdd dillad a honno wedi ei phwytho yn gywrain â llaw gan wraig o Gaernarfon yn 1946. Mi fyddai hon yn ffasiynol heddiw.

Eitemau personol ei gŵr gawsom ni gan Eryl. Roedd Mike Dooling yn rhan or gemau Olympaidd yn 2012.


*Beryl a ffrog priodas ei mam*


*Rhiannon a'r gyfrol*



***Meirion yn sôn wrth Idris am symbolaeth y cerrig***

Ef ddewisiwyd i gario'r dorch drwy barc Sefton am ei gyfraniad aruthrol i fyd chwaraeon. Cawsom gyfle i weld y dorch a'r fedal M.B.E. a dderbyniodd ym Mhalas Buckingham gan y Dywyoges Ann.

Ym meddiant Rhiannon mae llyfr a dderbyniodd yn anrheg gan ei thad, y cyfieithiad Cymraeg 'Caban Fewythr Twm'. Mae'r llyfr yn drysor ganddi, ac er i'r teulu symud o ardal i ardal, roedd yn gofalu fod y llyfr yn mynd gyda hi. Roedd yn mwynhau ei ddarllen a dysgu mwy am fywyd pobl arwrol. Edmygai hefyd y lluniau gan Henry Anelay.

Ein gwahodd ni ar daith wnaeth Meirion gan godi carreg ar bob ymweliad gan gychwyn y Paphos, yna carreg o Pompeii, ac yn nes adref carreg o gopa mynyddoedd yr Alban a Chymru, a dod i lawr i'r gwastadeddau, carreg wrth fedd Lloyd George o'r Afon Dwyfor, Parc yr Arfau, Llangeitho, Gardd Goffa Aberfan ac eleni tamaid bach o'r daith i'r Ysgwrn gan obeithio i Hedd Wyn droedio arni.

Yr hyn sy'n drysor i rai, sy'n geriach i eraill. Pawb at beth y bo. Diolch am rannu eich trysorau â ni. Mae stori tu ôl i'r cyfan oll.

Nos Lun Tachwedd 6ed cafwyd cylch trafod ar un o ddamhegion yr Iesu o Efengyl Mathew, pennod 25, adnodau 31-46 a'r agoriad i'r cefndir gan ein gweinidog. Ymatebodd pob un i'r drafodaeth yn frwd gan sylweddoli maint ein cyfrifoldeb i'r rhai sydd mewn angen o unrhyw fath. Mae pob un ohonom yn atebol am ei gyfraniad. Cofiwn eiriau y Fam Teresa: 'Gweld yr Iesu yn wyneb y tlodion!'

Ar y Nos Lun, 20 Tachwedd daeth cyfle eto yn y Gymdeithas Lenyddol i weld 'Mwy o luniau'r Angor' o 2005 - 2006 gan Dr. John. Llywydd y noson oedd Ben Hughes. Difyr oedd cael dwyn i gof lawer o atgofion hapus o'r holl ddathliadau ar hyd y blynyddoedd ac maent yn gofnod pwysig o'n hanes. Mae'n rhyfeddol cymaint y gweithgareddau a'r brwdfrydedd yn y cyfnod hwn, a diolch ei fod yn parhau hyd heddiw, ac mae edrych ymlaen at y dathliad y flwyddyn nesaf. Diolch Dr. John am y noson hyfryd ac i'n gweinidog am ei olygyddiaeth i'r *Angor* o'r cychwyn cyntaf.



***Dr. Rees ac Ifor Griffith***



***Oedfa Nadolig – Dr. John Williams a Harri (Buzz Lightyear) Roberts***

Roedd nos Lun, 27 Tachwedd dan ofal y Dysgwyr sy'n cyfarfod yn wythnosol yn ein hadeiladau i ddysgu'r iaith Gymraeg. Cafwyd orig o adloniant ysgafn gydag eitemau gan y parti canu, adrodd profiadau difyr, a drama fer am 'Anghenfil Llyn Tegid'. Mike Farnworth yw'r un sy'n ysgogi'r gweithgareddau a Sian Hartley yn hyfforddi'r dosbarth cychwynnol. Maent i'w hedmygu'n fawr am eu brwdfrydedd a'u dyfalbarhad.

Hyfryd oedd cael cwmni myfyrwyr o'r Brifysgol yn yr oedfa ar Ragfyr 3 a'u cyfraniad o garolau. Diolch i chi am alw i mewn, bydd croeso yn eich aros bob amser a chyfle i gael sgwrs uwchben paned o goffi.

Diolch i'r gwirfoddolwyr hynny ddaeth



***Oedfa Bore Nadolig - Llawenydd y Nadolig***



***Wena a Bethan***



*Hilda Lloyd, Rainhill yn y bore goffi*



*Myfyrwyr yn canu carolau*



*Teulu y Robertsiaid yng Ngwasanaeth Nadolig, Rhagfyr 17*

i lanhau'r capel fore Iau, y 7fed o Ragfyr. Ar yr 11eg o'r mis o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol cafwyd sgwrs 'Ar drothwy'r Nadolig' gan Nan, ac yn dilyn lluniaeth Nadoligaidd a ddarparwyd gan Lilian, Gwenfil a Carys. Diolchodd Dr. D. B. Rees i Mrs Nan Hughes Parry am yr holl baratoi ac am eitem Norma Owen ar dreulio'r Nadolig yn Hwngari.

Ar fore Sul, Rhagfyr 17 cafwyd uchafbwynt y dathliadau Nadolig. Cafwyd cyfraniad gwerthfawr Cantorion Bethel a'r pedwarawd MIRA (dyfalwch pwy ydynt?) Diolch i chi am rannu o'ch talent o dan arweiniad Mr. Ifor Griffith a rhoi arweiniad ym moliant yr Eglwys, ac i Dr. Rees yntau am ein hyfforddi yng nghefndir y Carolau. Addas iawn oedd dewis canu carol Hedd Wyn, a hynny am y tro cyntaf a gwefreiddiol oedd datganiad MIRA o garol y Plygain. Yn dilyn y gwasanaeth braf oedd cymdeithasu uwchben paned o goffi a




*Cantorion Bethel*

thamaid blasus eto o ddanteithion Nadolig.

Y blaenoriaid oedd yn gyfrifol am yr oedfa noswyl Nadolig ar y thema 'Goleuni'. Braf oedd gweld plant yn yr oedfa.

Bore'r Nadolig trefnwyd gwasanaeth o lith a charol gan Dr. John a chyda llawer o'n haelodau yn cymryd rhan. Y Sul olaf o'r flwyddyn eto o dan arweiniad Dr. John Williams. Anfonwn ein cofion at Mrs Beryl Williams ar ôl y ddamwain yn y cartref, i Dr. Pat Williams a'r driniaeth i'w llygad, ac i Mrs Enid Pierce Hughes sydd yn gaethiwus ar hyn o bryd.

Bu llawer o weithgarwch ym Methel ar hyd y flwyddyn ac mae ein diolch am arweiniad ysbrydoledig i'n gweinidog Dr. D. Ben Rees. Dioch am bob bendith a ddaeth i'n rhan. Rydym yn gymdeithas gynnes ac yn barod i ymateb yn gyson i bob gofyn a ddaw arnom, a diolch am eich cyfraniadau tuag at yr anghenus a'r digartref y Nadolig hwn. Derbyniwyd y swm o £530 tuag at Ganolfan Whitechapel, Lerpwl. Mae'r angen yn fawr, a'r ymateb eleni yn dangos hynny yn gwbl glir.

Cyfarchion cynnes atoch oll sydd yn methu ymuno â ni o Sul i Sul oherwydd anhwylderau. Meddyliwn amdanoch a gweddïwn drosoch. Cysylltwch ag unrhyw un ohonom fel blaenoriaid os gallwn eich helpu mewn unrhyw fodd.

Cerddwn ymlaen i'r fory newydd – sef 2018.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Golygfa hardd a gafwyd ar 10 Rhagfyr yn eglwys Crist pan ddaeth selogion capeli Bethel a Bethania at ei gilydd i dderbyn y sacrament o Swper yr Arglwydd. Diolchgar ydym i Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree am wasanaethu wrth yr organ, gwnaeth hynny bythefnos yn gynharach. Yr oedd hi'n Sul gaeafol a dweud y lleiaf a phryder am y ffyrdd yn ôl arbenigwyr y tywydd. Mentrodd ein haelod hynaf Miss Dorothy Williams i'r Cinio Nadolig a gynhelid ar ôl yr oedfa yn y gwesty lleol, Royal Waterloo Hotel. Byddai'n chwaer wedi dod i'r oedfa pe bai'r 'carer' wedi cyrraedd mewn pryd, gan fod Mrs Phyllis Waver wedi galw amdani yn Blundellsands. Diolchwn i Elin a Jim Boyd, Aughton am drefnu'r Cinio ac oherwydd peryglon y tywydd methodd tri o'r aelodau a chyrraedd y wledd. Cyfeiriodd Mr. John Lyons at y trefnu a chroesawu y gwahoddedigion a'r aelodau a ddaeth ynghyd unwaith yn rhagor.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Bu cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn anodd dros ben gan i ddwy o'n harweinwyr orfod treulio'r wythnosau yn ysbyty Arrowe Park. Anfonwn ein cofion at Miss Iris Hughes Jones, Wallasey, ein Hysgrifennydd a'n Trysorydd ffyddlon a Mrs Morfudd Williams, Moreton a gafodd gwymp yn ei chartref. Caiff y ddwy nifer o aelodau Seion i alw i'w gweld a diolchgar ydynt am hyn. Bu'r meddyg Dr. John G. Williams yn ei gweld hefyd, gan fod yn help iddynt ddygymod â'r caethiwed anorfod. Ein gweddi a'n dymuniad yw cael ei gweld yn ôl gyda'i gorchwylion, er ein bod yn deall fod Mrs Morfuydd Williams yn bwriadu ystyried symud i gartref gofal yn ardal Llanelwy rywdro yn 2018. Y mae ei brawd a'r teulu yn byw yn y cyffiniau. Clywsom am farwolaeth Mrs Eira Pari Huws, Porthaethwy cyn y Nadolig a bu hi a'i theulu yn gefn mawr i'r Ysgol Sul Undebol, i gapel Clifton Road a Chymdeithas Gymraeg Birkenhead. Cydymdeimlir â'r ddau fab Geraint ac Alun a'u teuluoedd.

# CINIO NADOLIG WPS !



Dyma rhai o aelodau WPS! Lerpwl yn mwynhau cinio Nadolig yn nhŷ Carys. Cafwyd noson hwyliog gyda phob aelod yn paratoi rhywbeth blasus i'w fwynhau a coronwyd y noson gyda cwis Nadolig. Rydym yn edrych ymlaen i gyfarfod yn 2018 gan gychwyn gyda pencampwriaeth y chwe gwlad ac mae croeso i aelodau newydd ymuno. Nid yw'n hanfodol siarad Cymraeg ond mae'r grŵp yn gyfle arbennig i ymarfer mewn awyrgylch hamddenol – mae gennym gymysgedd o allu; rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg a rhai sy'n dysgu meistrioli'r iaith. Anogir unrhyw un sydd â diddordeb ddod am bryd i gysylltu â Carys neu Sara Williams drwy dudalen *Facebook* WPS! Lerpwl neu yrru ebost i carysgog@hotmail.co.uk. Bydd croeso cynnes Cymreig ichi. Blwyddyn Newydd dda i ddarllenwyr 'Yr Angor'.

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2018. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor** y*w £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

i) **Rhifyn Mawrth 2018 –** erbyn bore Iau, 1 Chwefror 2018 – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

ii) **Rhifyn Ebrill 2018** erbyn bore Iau, 1 Mawrth 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk. net

iii) **Rhifyn Mai 2018 –** erbyn bore Sul, 1 Ebrill, 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 11.00 ar ddydd Llun, 2 Ebrill, 2018.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

# PLENTYN YNG NGHYMRU

## gan Gareth (Gary) Davies, Allerton, Lerpwl

Gaf i ddweud yn syth. Ges i ngeni a magu yn Llundain, – ond pan o'n i'n blentyn – basen ni'n mynd i Gymru bob Pasg a bob gwyliau haf – er mwyn aros ar y fferm teulu gyda fy nwy fodryb a dau wncwl. Roedd hi'n fferm gymysg yn y bryniau ger Llanfair-ym -Muallt yn sir Frycheiniog. Yr oedd y bywyd gwledig mor wahanol i fywyd dinas fawr Llundain. Yr oedd fy mam yn un o un deg saith o blant ac felly roedd llawer o berthnasau gyda fi yn ein cornel o Gymru.

Pan dw i'n meddwl am Gymru yn pumdegau yr ugeinfed ganrif, mae hi'n ymddangos nawr, mwy fel y mil wyth pumdegau.

Dywedodd Gwyn A. Williams, y hanesydd, bod y byd hwnnw, jyst ar ôl y rhyfel, yng nghefn gwlad Cymru, ddim wedi newid llawer iawn oddiar cyfnod y Tuduriaid.

Efallai bod hynny'n wir, ond roedd rhai wahaniaethau, roedd gwydr yn y ffenestri, esgidiau ar draed y plant a chawson ni corn flakes am frecwast.

Roedd y tŷ fferm yn gysurus — ond yn gyntefig. Doedd dim trydan, doedd dim nwy a doedd dim dŵr rhedeg yn y tŷ. Dw i'n cofio bod y modrybedd yn coginio dros tân agoed yn y gegin, tegell du enfawr yn hongian o gadwyn dros y tân – ac ochrau mochyn yn hongian o fachau yn y nenfwd.

Roedd rhaid i bwmpio lan dŵr o'r ffynnon tri deg llath o'r tŷ. Roedd unig dŷ bach hanner cant llath o'r tŷ - dros nant fechan.

Roedd lampau olew yn yr ystafelloedd lawr grisiau a chanhwyllau yn y llofft. Doedd dim ffôn. Doedd ddim papurau newydd.


Roedd cymydog agosa un filltir i ffwrdd. Ein prif gyswllt gyda byd tu allan oedd hen radios oedd yn gweithio ar fatri mawr. Roedd y batri hanner maint batri car. Rhaid i ni fynd a hwn i Builth Wells bob dydd Llun er mwyn cael ei ddiwallu. Dw i'n cofio pan on ni'n hynach ac roedd fy chwaer a fi yn dechrau gwrando ar gerddoriaeth pop ar y hen wireless, basai'r batri yn fflat fel crempog erbyn dydd Mercher, ac felly fasai ddim radio o gwbl nes y dydd Llun wedyn. Basen ni'n cael llid yr oedolion am hyn oherwydd doedd dim newyddion, doedd dim rhagolygon y tywydd – a gwaetha'r modd iddyn nhw doedd dim gobaith gwrando ar *Yr Archers*.

Pan ddaeth Bwrdd Dŵr er mwyn rhoi dŵr i mewn i'r tŷ, ro'n nhw'n mynd i'w gymryd e o'r ffynnon lleol, ond ar ôl iddyn nhw dadansoddi'r dŵr dwedon nhw, "Dych chi ddim yn yfed y dŵr yn y ffynnon". Meddai'r modrybedd, "Wrth cwrs bo ni".

Meddai bobl y dŵr "Dylech chi bod wedi marw neu sâl iawn – mae'r dŵr yn llawn o facteria ofnadwy". Ond, ro'n ni'n iawn. Mae rhaid ein bod ni wedi arfer a hynny.

Dydd Sul oedd dydd mynychu'r capel. gwledig. Pan oedd eisteddfod wrth cwrs yr oedd yn rhaid i ni gystadlu. Os ennill, rhoddwyd swm bach o arian mewn bagiau wedi'u dylunio a'u brodio'n hyfryd ar eich cyfer.

Roedd y fferm yn hunangynhaliol i raddau helaeth. Roedd siop agosaf yn y pentref tua tair milltir i ffwrdd. Pan byddem ni yn ni yn cerdded yno basen ni wastad ymweld a ein modryb Martha. Roedd hi'n fenyw fach - tua wyth deg mlwydd oed, oedd yn byw yn y pentref. Roedd Martha wedi byw yn ein bwthyn bugail ar y bryn yn ystod y rhyfel. Un nos roedd awyren yn heddfan dros y bryniau pan daeth e lawr ger ei bwthyn.



Fy chwaer a minnau ar y fferm



*Mam yn bwydo oen*

Roedd dau ddyn wedi parasiwtio lawr ar y bryn. Wnaeth Aunty Martha glywed sŵn ac felly wnaeth hi danio lamp a chrwydro dros y tir er mwyn gweld beth oedd wedi digwydd. Dw i ddim yn meddwl ei bod hi'n disgwyl dod o hyd i ddau Almaenwr yno – ond dyna a ddigwyddodd. Aeth hi gyda nhw nôl i'r ty ac roi paned o de iddyn nhw. Dywedodd hi wrthyn nhw gallen nhw gysgu ar y llawr wrth y tân. Y bore wedyn cododd hi'n gynnar, rhoi brecwast iddyn nhw a cherdded gyda ddau beilot saith milltir lawr i orsaf heddlu yn Llanfair ym Muallt.

Mae'n rhaid bod hyn wedi rhoddi balm o falchter i'r bobl leol i weld hen fenyw fach yn cerdded ar hyd y ffordd i mewn i Builth Wells gyda dau garcharor Almaenig tu ôl iddi.

Fel rhannau eraill o Gymru, cafodd pobl eu nabod gan eu llysenwau. Roedd yno Dick click click – oherwydd roedd dannedd gosod yn rhydd yn ei geg. Enw dyn y glo lleol oedd Ron ac felly oedd e'n Ronald Coleman. A Dai deunaw mis. Roedd e wedi colli hanner clust mewn damwain. Roedd dim ond ear and a half gyda fe.!! Felly meddai'r brodorion, Dai deunaw mis.

Dydd Llun oedd dydd y farchnad ac felly ro'n ni'n mynd i Builth yn ein dillad gorau. Roedd yn fwy cyffrous os roedd yr wncwl neu ddau wncwl yn gwerthu llo neu rhai defaid.

Doedd dim teganau o gwbl ar y fferm gyda ni ond roedd gwaith i neud. Naethon ni helpu godro'r buchod, bwydo'r mochyn, hefyd gofalu am y ffowlyn a'r fferet.

Naethon ni chwarae gyda chi bach a chath fach, – neu cael ein cario ar y merlod neu chwarae mig yn y sguboriau. Gwibdaith fawr oedd mynd a'r caniau llaeth yn y bore ar y tractor un filltir lawr y ffordd er mwyn cwrdd a'r lori llaeth. Weithiau basen ni'n colli'r lori oherwydd ro'n ni'n hwyr – ac felly roedd rhaid i ni ddod a chaniau llaeth yn nol a'u gosod nhw yn y ffynnon lle roedd hi'n oerllyd.

Uchafbwynt arall ambell i fore oedd



*Diwrnod Cneifio*

gweld y llythyrgludydd yn dod atom dros y caeau. Roedd dim ond pedwar fferm gyda fe ar ei rownd. Os oedd hi'n bwrw glaw - efallai fasai e ddim yn dod – a basai e'n cadw'r post nes bod y tywydd yn well. Os oedd cerdyn post i ni, basai ef wedi ei ddarllen ac yn moyn trafod y neges gyda chi ac ni fasai ef yn cuddio gwir oddiwrthych. Roedd ef e wedi ei ddarllen ef beth bynnag!

Roedd dyddiau arbennig fel torri'r gwellt, pan basai rhywun yn troi lan gyda combine harvester. Fel roedd y harvester yn dod agosach i ganol y cae – basai'r cwningod yn dechrau rhedeg un ar ôl y llall – ac felly basen ni a'n teulu yn galw lan y cŵn o'r fferm ac efallai basai ugain neu tri deg gwningen yn cael eu dal yn ddiogel. Ac am wythnos gyfan dyna fyddai y prif fwyd, cael pastai cwningen neu stiw cwningen.

Roedd dydd trochi y defaid yn ddydd cofiadwy. Yn wir dydd mawr arall ydoedd gan y byddai'n rhaid mynd lan y bryn a dod a'r defaid lawr i'r llociau trochi. Y diwrnod mwyaf oll oedd diwrnod cneifio pan basai llawer o berthnasau a chymydogion troi i fewn i'r sgubor er mwyn helpu cneifio'r defaid.

Yn y flwyddyn 1963 daeth trydan i'r ardal. Prynodd pobl setiau deledu a pheiriannau godro, a daeth yr ardal yn sydyn i fewn i'r ugeinfed ganrif.

Maen nhw'n dweud nad yw'n dda i fyw yn ormodol yn y gorffennol – ond mae'n braf i ymweld â hen ddyddiau nawr ac yn y man. Gobeithio eich bod chi ddarllenwyr *Yr Angor* wedi mwynhau ymweld â'r gorffennol gyda fi. Dyma'r hyn a ddarllenais yn y Noson Lawen yn y ganolfan Gymraeg ger Penny Lane ar Nos Lun 27 Tachwedd 2017. Dysgwr ydwyf a dyma fy ymgais a diolch i'r Golygydd am fynnu cael fy ysgrif i dudalennau yr *Angor*. Byddaf yn hoffi darllen y papur bro.

# Y Wahanfa Ddŵr

### *gan Gareth Huw Jones*

Y wahanfa ddŵr yw'r pwynt ar y mynydd sydd yn gwahanu dau gorff o ddŵr. Lle mae'r dŵr yn penderfynu pa lwybr i redeg: ffordd yma neu ffordd yna.

Mae plentyn Cymraeg yn Lloegr yn byw ei fywyd ar y wahanfa ddŵr, yn edrych un ffordd a'r llall ac yn myfyrio pa ffordd i ddewis. O oedran ifanc, mae e wedi ei dorri rhwng y galwadau anghyson o dir ei fam ag o'i dir ei hun; y plygion cynnes o'r hen iaith a'r fin danheddog o'r byd newydd.

Mae byw ar y wahanfa ddŵr yn ddewis, rhwng silffoedd llawn o lyfrau a waliau trist a moel, rhwng maldod a malais, cymuned a fi, fi, fi. Mae'n ddewis, rhwng parchu ag amharchu, amynedd a diffyg amynedd, cadwraeth a herfeiddiad.

Ond dyw e ddim i gyd yn un ffordd yn unig. Mae'n ddrwg gen i, ffrindiau Saesneg. Mae'n golygu dewis rhagolygon dros dlodi, opsiynau dros cyfyngiadau, y traffordd dros troadau tynn.

Mae gwerin y wahanfa ddŵr yn teimlo'n amddiffynnol o Gymru, fel plentyn neu hen berthynas. Mae'n poeni y bydd hi'n cael ei brifo, fel mae e wedi cael ei frifo, gan eiriau niweidiol a gweithredoedd difeddwl meibion di-galon y gorchfygwyr.

Mae e'n cymryd cryfder o Gymru, Eden Prydain; ei doniadau a'i hawyr iach, ei hanes a'i doethineb, ei cherddoriaeth, ei iaith; yn dychwelyd i'r ffwrnais Lloegr gyda'r offer llaw i gofannu y gledd.

I Gymru bydd yn dychwelyd un diwrnod, fel llwch, os nad cyn hynny, ond mae'n gofyn y cwestiwn na ellir ei ateb: ond pam gadawodd fy nhad?

Gall "God Save The Queen" ddim llenwi ei galon, mae ei dirwedd yn ei adael yn fflat. Ond dyw bechgyn Basildon ddim yn canu "Gwlad, gwlad" nac yn gwisgo het y bardd.

Ar y wahanfa ddŵr dyn ni'n gartrefol iawn, yn gwylio dros y byd. "Dyna Cymru!" dyn ni'n dweud o Otterspool; "Dyna Lerpwl!" yn edrych yn ôl.

Rhan amlaf dyn ni'n dweud 's dim ots. Dyna beth yw bywyd i gyd. Yn gohirio'r dewis am y tro a mwynhau y golygfeydd ysblennydd.

***(Dyma ymgais dysgwr arall a diolch am y cyfraniad. Doed eto i'r Angor –Gol).***

## Cymdeithasfa'r Gogledd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru

**Cynhelir eisteddiadau'r Gymdeithasfa'r Gogledd ar fore Mawrth, Ebrill 17, 2018 yng Nghanolfan LACE, Parc Sefton.**

Bydd yr eisteddiad cyntaf yn dechrau am 10.30.

Cinio: 12.30 - 1.30

Ail Eisteddiad: 1.30 i 3.45.

Te Croeso yng Nghanolfan Capel Bethel, Auckland Road, Lerpwl am 4 o'r gloch.

5.30 Cyfarfodydd y Blaenoriaid a'r Gweinidogion

7 o'r gloch Cyfarfod Cyhoeddus pryd y trosglwyddir y Llywyddiaeth.

---

**Dydd Mercher, Ebrill 18 yn LACE,**
Eisteddiad o 10 o'r gloch y bore hyd amser cinio – 1.30 mae'n debyg

# Cymdeithas Cymry Lerpwl

Cafwyd cyfarfod gwahanol ar brynhawn Mercher ac nid nos Fawrth yn nechrau Tachwedd. Trefnwyd ymweliad â Llyfrgell Ganolog Lerpwl yng nghanol y ddinas. Adeiladwyd y llyfrgell yn 1860 wedi rhodd haelionus dros ben gan Syr William Brown o £40,000. Atgyweiriwyd yr adeilad wedi difrod bomiau yn ystod yr Ail Rhyfel Byd. Ail adeiladwyd y llyfrgell rhwng 2010 a 2013 er mwyn ateb gofynion y ddinas. Roedd yr hen lyfrgell wedi ei gofrestu fel adeilad hanesyddol ac felly 'roedd rhaid cadw wyneb yr adeilad fel ag yr oedd ond cynlluniwyd nifer o newidiau i du mewn yr adeilad.

Mae'r llyfrgell wedi ei rannu i bedwar llawr, pob un gyda thema arbennig


- Mae'r llawr gwaelod yn canolbwyntio ar nofelau ac mae yna ystafell fawr i gynnal gweithgareddau i blant.
- Llawr cyntaf a'r ail – lleolir yma lyfrau ffeithiol o bob cyfnod a llawer o gyfrifiaduron.
- Ar y llawr uchaf yn y Llyfrgell canolbwyntir ar hanes lleol a hanes teuluol.




*Ymweliad i'r Llyfrgell*

Ar y daith o amgylch gwelsom 'Ystafell Gemau' sydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc chwarae gemau cyfrifiadurol er mwyn eu denu i fyd llyfrau. Mae nifer o hen lyfrau yn y Llyfrgell yn cynnwys un allan o gyfres o bedwar llyfr a ysgrifenwyd gan John Jones Audobon yn sôn am a darlunio adar America. Mae'r gyfres yn ei chyfanrwydd yn werth 7-8 miliwn o bunnoedd heddiw!

Gorffenwyd y prynhawn ardderchog yma trwy cael sgwrs a phaned yn y caffi wrth y fynedfa. Diolch i Norma, Roderick ac Alun am drefnu prynhawn mor bleserus.




*Cyfrol brin*

Ar Dachwedd 7fed daeth y Parch. Gerallt Lloyd Evans atom a chawsom sgwrs hwyliog ganddo. Teitl ei sgwrs oedd 'Dros y Cownter'. Cafodd ei fagu yn Cerrigceinwen, Ynys Môn ac 'roedd y siop yn ystafell ffrynt ei gartref – ei dad oedd y perchennog! Ardal wledig yw Cerrigceinwen gyda llawer iawn o ffermydd yn y cylch. Roedd yn gymdogaeth ddynamig, ffeind a gonest. Roedd y siop yn agored bob amser. Os nad oedd drws y siop yn agored 'roedd y cwsmeriaid yn dod i ddrws cefn y tŷ. Bu'n sôn am rai o'r cwsmeriaid oedd yn dod i'r siop. Yn aml iawn 'roedd rhai ond wedi dod am y gwmniaeth. Deuant yno i brynu ychydig o neges ac i bwyso ar y cownter i ddweud eu hanesion ac i ddweud eu cwyn. Byddai nos Fawrth yn noson brysur gan ei bod yn noson gwerthu yr 'Herald' a'r 'Clorianydd'. Pob blwyddyn yn wythnos gyntaf mis Mai byddai'r siop yn cau yn gynnar am dair noson ar 'bleinds' yn cael eu tynnu i lawr. Rhain oedd nosweithiau y Cyfarfod Pregethu. Ym 1978, wedi farw ei dad, cafodd y siop ei datgymalu ac roedd yr ystafell yn dod unwaith eto i fod yn ystafell ffrynt y tŷ. Mae Gerallt Lloyd Evans yn hoff o eistedd yn yr ystafell yma ar ei ben ei hyn a chau ei lygaid ac mae'r lle yn dod yn fyw iddo unwaith eto. Mae'n dychmygu clywed lleisiau y cwsmeriad a chloch drws y siop yn canu.



*Gerallt Lloyd Evans a Nan, y Cadeirydd*

Y nos Fawrth ganlynol cawsom gwmni un arall o Ynys Môn sef yr arlunydd Wil Rowlands. Fe'i magwyd yn Llandyfrydog yng Ngogledd yr ynys ond yn ystod ei yrfa mae wedi crwydro i lawer lle arall cyn dod yn ôl i Fôn. Bu yn Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch, wedyn yn y Coleg yng Nghaer cyn dod i goleg yn Lerpwl ac wedyn mynd i Fanceinion i weithio fel artist masnachol am ugain mlynedd. Yn 1985 aeth i Efrog Newydd ac wedyn i India y flwyddyn ganlynol am dri mis. Gwelsom rhai o'i luniau o'r siwrne yn India yn ystod ei sgwrs. Daeth yn ôl i Gymru yn 1994. Dangosodd lawer o'i waith o wahanol gyfnodau yn ei yrfa e.e. tirluniau, portreadau, lluniau o Sir Fôn. Roedd lluniau o fywyd fferm o ddiddordeb mawr iddo gan ei fod wedi ei fagu ar fferm. Teimlai fod tynnu llun o'r môr yn gallu cyfleu harddwch a nerth y dŵr ond hoffai rhoi pobl yn ei ddarluniau hefyd. Mae hefyd yn arbrofi gyda



*Enillwyr Cwis Cymdeithas Cymry Lerpwl*

thechnegau gwahanol fel ysgrythiadau a printiadau lino. Yn ddiweddar mae wedi cynhyrchu gwaith llai confensiynol a mwy haniaethol. Edrychwn ymlaen at ei arddangosfa nesaf ym mis Mai 2018 ym Mhlas Brondanw, Llanfrothen. Hyd hynny mi fydd rhaid i ni edrych ar ei wefan (www.wilrowlands.com) i weld ei waith.

Ar Tachwedd 21ain cawsom noson gerddorol yng nghwmni tad a'i ferch o Lanrwst sef Denis Davies ac Esyllt Tudur. Yn eu cymuned mae y ddau yn bobl brysur iawn yn cadw yr iaith a'r



***Tîm y Llwyau Pren***



***Enillwyr y raffl - Devida, Mair a Gwen***


diwylliant yn fyw. Mae'r ddau wedi ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac erbyn hyn yn hyfforddi cystadleuwyr a beirniadu mewn eisteddfodau. Cawsom raglen amrywiol ganddynt yn cynnwys canu emynau, canu gwerin, caneuon modern ac adroddiadau. Noson gartrefol oedd yn dangos ein diwylliant ar ei orau.

Y nos Fawrth ganlynol cafwyd y cwis blynyddol yng ngofal Devida Broadbent. Roedd tri tîm yn cystadlu. Er fod rhai o'r cwestiynau yn anodd fe gafwyd noson hwyliog iawn. Diolch i Devida am ei holl waith yn trefnu'r cwis.

Ar noson oer ar Rhagfyr 5fed aethom i Westy'r Hallmark, Parc Sefton am ein cinio Nadolig lle cafwyd cyfle i sgwrsio a chymdeithasu. Braf oedd gweld pedair myfyrwraig wedi ymuno gyda ni. Cyn diwedd y noson cyflwynodd Nan Hughes Parry anrheg i'n Ysgrifenyddes, Norma Owen, a diolch iddi am ei holl waith yn ystod y flwyddyn yn trefnu y rhaglen ragorol a'r diwrnod braf a gawsom yn yr Hydref yn ymweld â'r 'Ysgwrn', cartref Hedd Wyn, yn Nhrawsfynydd. Cafwyd ymateb gan Norma yn diolch i bawb am eu rhan yn llwyddiant y gymdeithas.

I orffen y rhan yma o dymor y Gymdeithas fe gafwyd noson 'Naws y Nadolig' yng nghartref Margaret Anwyl Williams. Roedd digon o ddanteithion yna i'n cadw yn hapus a braf oedd cael canu carolau gyda Margaret yn cyfeilio ar y delyn.

Blwyddyn Newydd dda i holl darllenwyr 'Yr Angor'.



***Norma yn diolch am y gydnabyddiaeth o'i llafur i'r Cymry***



***Côr Eryl yn Naws y Nadolig***



***Naws y Nadolig gyda'r delynores Margaret Anwyl Williams***

*Ysgrif Goffa*

# Miss MEGAN ROBERTS

## (1922-2017), Bebington

**Hyd ddwy flynedd yn ôl, gwelwyd Miss Megan Roberts yn cerdded yn sionc o'i chartref yn 23 Broadway, Bebington, at y bws i'w dwyn i siopa yn Lerpwl. Roedd ei chymdogion yn gyfarwydd iawn a'i thaith ddyddiol a'i ffrindiau ar y bws yn ei chyfarch yn hapus. Yna daeth gwaeledd sydyn a gweddol gyflym ac wedi arhosiad yn Ysbyty Arrowe Park, aeth Megan i Charlotte House lle cafodd ofal tyner a charedig. Yno, yn dawel bu farw Megan ar Hydref 1af dau fis cyn cyrraedd 95 mlwydd oed. Mae colled enfawr ar ei hôl yn ein Cymdeithas, ac yng nghapel Seion. Rydym oll yn ymwybodol o'i chyfraniad gwerthfawr i weithgarwch Cymreig ar y Glannau dros llawer o flynyddoedd.**

**Ganwyd Megan yn Grange Road West, Penbedw yn 1922, plentyn cyntaf Peter ac Elizabeth Roberts. Ganwyd ei rhieni yn ardal Penmaenmawr, gyda chefndir amaethyddol a chwarelyddol.**

**Drwy ei gysylltiad gyda'r chwarel oedd yn allforio cerrig drwy Benbedw, daeth y teulu i fyw yng Nghilgwri a thyfodd Megan i fyny yn un o'r *Birkenhead Welsh*. Cymraeg oedd iaith y teulu, ac Eglwys Fethodistaidd yn Claughton Road oedd canolbwynt eu bywyd teuluol.**

**Mae hanes am Megan yn ennill tystygrifau arholiad ar wybodaeth Beiblaidd o oed 5 hyd 22. Cafodd addysg Saesneg yn ysgol Woodchurch Rd., ac ysgol uwchradd Park High. Dysgodd i chwarae'r piano – talent a ddefnyddiodd Megan fel organyddes am flynyddoedd. Yn 2002 cafodd *Long Service Certificate of the Methodist Music Society in recognition of 60 years of service*.**

**Wedi derbyn canlyniadau uchel yn arholiadau Lefel A, aeth Megan i Brifysgol Bangor, lle graddiodd gydag anrhydedd mewn Ffrangeg a Lladin yn 1944. Tra'n astudio ym Mangor, roedd Megan yn byw gydai theulu ym Mhenmaenmawr oherwydd y rhyfel. Wedi ei hyfforddi fel athrawes, aeth Megan i ddysgu Ffrangeg yn Pontefract, Sir Efrog. Ar ôl tair blynedd daeth Megan i ddysgu yn Ysgol Ramadeg y merched, Cilgwri.**

**Tua'r amser yma, derbyniwyd Megan fel pregethwr lleyg gyda'r Eglwys Fethodistaidd. Yn 1953 daeth gwaeledd ar Megan pan gollodd ei llais yn gyfangwbl ac roedd rhaid rhoi gorau i ddysgu - gyda thysteb canmoladwy iawn gan y brifathrawes.**

**Wedi ysbaid fel *almoner* yn ysbyty'r plant, ac wedi gwella, aeth Megan yn ôl i'r dosbarth yn 1961 yn ysgol uwchradd y merched yn Prenton i ddysgu ysgrythur ac yno arhosodd hyd ymddeol yn 1981 fel dirpwy brifathrawes. Daeth ei rhieni o Benmaenmawr, ac aeth Megan o'i fflat, i fyw gyda hwy yn King's Road, Bebington - taith gerdded cyfleus iawn i'r ysgol. Wedi marwolaeth ei thad yn 1979, gofalodd Megan am ei mam am rhai blynyddoedd ac wedi ei marwolaeth hi, aeth Megan i fyw mewn tŷ llai yn Port Sunlight, ac yna yn ôl i Bebington.**



*Megan Roberts*

**Ar hyd ei bywyd roedd Megan yn brysur a galluog gyda gwaith llaw o bob math gan ennill gwobrau mewn eisteddfodau a chystadlethau. Gwnaeth waith arbennig gyda "Operation Christmas Child" yn gwneud eitemau buddiol i blant y trydydd byd.**

**Roedd Megan yn mwynhau teithio i'r Cyfandir ac yn arbennig i ymweld â ffrindiau yn Ffrainc lle'r arhosodd yn ystod ei blwyddyn yn y wlad honno tra'n astudio'r iaith ym Mangor. Hoffai hefyd ymuno gyda Chymry'r Glannau ar eu gwyliau blynyddol i Drefecca. Ymyfrydai yn hanes teulu ei brawd Merfyn – ei blant a'u plant hwythau. Roedd darluniau ohonynt i'w gweld yn ei chartref ac roedd hi mor falch o'u llwyddiant mewn ysgol, coleg a gwaith.**

**Ar hyd ei hoes roedd Megan yn y capel ac yn weithgar ym mhob gwaith Cristnogol. Roedd yn athrawes ysgol Sul meddylgar gyda chyfathrach arbennig gyda phlant yn eu harddegau. Wedi ymddeol, roedd yn cynnal dosbarth Beiblaidd yng nghapel Noddfa, ac yn ei chartref. Edmygwyd ei pharatoad trylwyr a'i gwybodaeth Beiblaidd. Nid darlith a gawsom ganddi ond yr arweiniad i drafod, dadlau a holi. Yn y Gymdeithas Gymraeg ym Mhenbedw bu Megan yn llywydd a bob amser yn barod i gymeryd rhan newn unrhyw weithred - ambell un digon gwirion a hwyliog.**

**Daeth cynulleidfa gref ynghyd i Gapel Seion ar fore Llun Hydref 23, ac yna yn Landican. Gwasanaethwyd gan y Parch Eleri Edwards, a chafwyd teyrnged ar ran y teulu gan Mr Gareth Roberts, a gan Mrs Joyce Holland, cyfaill a chymydog. Rhoddwyd yr anerchiad dwys a meddylgar gan y Parch Eleri Edwards.**

**Dyma rhan o'i geiriau. "Bu bywyd Megan yn hir, yn ymroddgar, yn ddiwyd, yn ffyddlon i'w ffydd, ac yn weithgar dros eraill. Cafodd fywyd da ac ymadawiad tawel yn ôl y gweinidog a weinyddodd y cymun iddi yn yr wythnos olaf. Roedd Megan yn barod i gyfarfod ei Cheidwad, a gallai ddweud fel Job 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw'. Efallai yn nes i'w chalon oedd geiriau Crist gyda'r sicrwydd, 'Na thralloder eich calon yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finnau hefyd … felly yr wyf i y byddwch chwithau hefyd.' Dyna beth yw bod yn Gristion, rhoi ffydd yn Nuw a gweithio drosto"**

**Dyna oedd bywyd Megan a dyna yr hyn a welwyd ym mhob agwedd o'i bywyd. Diolchwn i Dduw am ei bywyd hir ar y Glannau, ac mae gwacter mawr ar ei hôl.**

*(Paratowyd gan G.R., E.E. a E.S.)*

# CORNEL Y TRYSORYDD



## Chwefror 2018

| | |
|---|---|
| Mrs Nan Hughes Parry, Gateacre | £25.00 |
| Robin ac Eleri Gwyndaf, Caerdydd | £25.00 |
| Sgt. John Thomas, Allerton | £40.00 |
| Mrs Gwen Rigby, Mossley Hill | £20.00 |
| Mrs Gwenfyl Haynes, Allerton | £25.00 |
| Mr a Mrs Selwyn Jones, Penmynydd | £25.00 |
| Mr Peter B. William, Newton | £11.00 |
| Mrs Gwen Jones, Allerton | £25.00 |
| Mr a Mrs Geraint Roberts, Rhuthun | £25.00 |
| Mrs Gwenda Roberts, Bae Colwyn | £25.00 |
| Mr a Mrs Eryl Edwards, Llanuwchllyn | £10.00 |
| Mr a Mrs David John Williams, Gateacre | £20.00 |
| Mr a Mrs Clifford Owen, Llanfairfechan | £25.00 |
| Parch a Mrs Gwyndaf Richards, Llwydiarth | £20.00 |
| Mrs Mair Williams, Cemaes | £12.00 |
| **Cyfanswm** | **£333.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# Cymdeithas Cymry Birkenhead

Fel Cymdeithas rydym bob amser yn falch i groesawu cyfeillion Lerpwl i'n cyfarfodydd.

Daeth Dr. Pat Williams atom yn Hydref a'r Parch Ddr. D. Ben Rees ym mis Tachwedd. Er gwaethaf helyntion y twnel maent yn fodlon croesi'r afon – diolch calon i bob un ohonynt.

Gan Dr. Pat cawsom ddarlith ar y pwnc 'Brethyn Cartref' sef arweiniad drwy hanes geiriau yn ymwneud â dillad a defnydd drwy'r oesoedd ac mewn amryw o ieithoedd. Mae hanes datblygiad iaith ac ystyr yn destun dyrys a chymleth ond yn llaw ysgolhaig fel Dr Pat pleser oedd olrhain datblygiad geiriau o'r Canol Oesoedd hyd heddiw, mewn modd gafaelgar a dealladwy. Gwisgoedd y bonheddwyr a'r werin oedd y llinyn gyswllt rhwng yr ieithoedd drwy'r oesoedd a deall y pwysigrwydd a roed ar ddillad – nodwedd ffasiwn hyd heddiw. Gwelsom sut 'roedd dillad yn cyfleu cymeriad y sawl a'u gwisgai, drwy i Dr. Pat ein harwain drwy hanes a chwedlau fel y Mabinogion. Diddorol oedd gweld a deall tarddiad newididau ystyr mewn geiriau fel pais (arfais) "coat of arms", brethyn (dillad) llen (nid cyrtan, ond "wrapround") brat (nid ffedog, ond clytiau). Cawsom eglurhad o'r berthynas rhwng geiriau o wahanol wledydd Ewrop a sylwi sut mae benthyca geiriau yn cyfoethogi iaith – hyn yn digwydd hyd heddiw. Trwy ddysg Dr Pat am lenyddiaeth yr Oesoedd Canol, a'i gallu fel darlithydd, arweiniodd ni drwy ddatblygiad geiriau sy'n ymwneud â pheth mor gyffredin â gwisg. Llywydd y noson oedd Mrs Iola Edwards a diolchodd i Dr Pat am noson ddysgedig a goleuedig.

Mae dros ddeugain mlynedd er ymweliad cyntaf Dr. D. Ben Rees â'n Cymdeithas ni, a hynny yng nghapel Woodlands erstalwm, ond nid yw amser wedi amharu ar ei allu i swyno cynulleidfa. Mae ganddo yr un ymroddiad, yr un gwybodaeth ar flaen ei fysedd, a'r un gallu i gynnal ein diddordeb a'n dysgu. Teitl ei ddarlith oedd "Cofio Cledwyn", testun llyfr diweddaraf Dr Ben Rees. Hawdd oedd gweld ei edmygedd o'r gŵr arbennig hwn, "un o wŷr mawr Cymru" a chawsom ddarlun manwl a gonest o'r hogyn distaw o Sir Fôn a ddaeth yn Arglwydd Cledwyn o Benrhos, ac yn arweinydd y Blaid Lafur yn Nhŷ'r Arglwyddi am ddeng mlynedd.

Ganwyd Cledwyn yn 1916 yn Sir Fôn yn fab y Mans. Ei dad, Parchedig H. D. Hughes a fu'n chwarelwr yn Dinorwig cyn ei ordeino yn 1913 a dod i ofalaeth Capel Disgwylfa Caergybi yn 1915. Diddordeb ei dad mewn gwleidyddiaeth, a'i Gristnogaeth diffuant, fyddai ysbryboliaeth Cledwyn ar hyd ei oes. Gan ei fam cafodd yr hyder i anwybyddu y nam ar ei wyneb a'r ddawn i gyfathrebu â phawb, o'r tlodion i'r teulu Brenhinol. Ei arwyr yn ei ieuenctid oedd pregethwr blaenllaw Cymru a disgwylid iddo yntau fynd i'r weinidogaeth, ond gwleidyddiaeth oedd ei faes.

Er siom i'w dad, Rhyddfrydwr brwd, ymunodd Cledwyn â'r Blaid Lafur yn 1938 o dan ddylanwad Henry Jones, ac wedi iddo weld tlodi y diwaith yn yr ynys. Bu yn gynghorydd lleol am rhai blynyddoedd ac yna i sefyll fel ymgeisydd Llafur dros Sir Fôn, yn erbyn yr aelod poblogaidd Megan Lloyd George yn 1944. Ar y trydydd cynnig, etholwyd Cledwyn yn aelod seneddol dros Sir Fôn yn 1951, wedi gwrthod pob cynnig i geisio etholaeth arall. Dros y blynyddoedd canlynol o 1951 i 1979 cafodd yrfa ddisglair mewn swyddi blaenllaw nes cyrraedd Tŷ'r Arglwyddi lle cafodd glod gan amryw o wleidyddion o fri.

Meddai Lord Denning: "No one can master the Lords like Cledwyn".

Goronwy Humphreys, Wallasey oedd y cyfeilydd.

Daeth "Y Ddau Bob" atom ar 27 Tachwedd, hynny yw y Parchedigion Robert Parry ac R. W. Jones, y ddau o Wrecsam a'r Parch R. W. Jones bellach yn gyfrifol am yr achos yn Berthengam, Sir y Fflint. Fel cantorion a storïwyr, yn hytrach na phregethwyr daethant atom y tro hyn a chawsom noson hyfryd a chartrefol gyda'r ddau gyfaill hoffus. Mae'r ddau yn gantorion gwych a Robert Parry yn gyfeilydd profiadol. Clywsom unawdau a deuawdau cyfarwydd a phoblogaidd, yn cynnwys hoff emynau, carolau a chameuon clasurol a thraddodiadol. Bob yn ail cafwyd straeon difyr a digrif a phrofiadau o'u bywyd yn y weinidogaeth.

Llywyd y noson oedd Glenys Wilkinson, a phawb mor falch o'i gweld yn ôl wedi ei thriniaeth. Terry O'Neill oedd yr "is-gyfeilydd" i Robert Parry.

Cawsom noson gartrefol a thraddodiadol i gloi hanner cyntaf y tymor ar Rhagfyr 11eg. Trefnwyd noson o ganu carolau yng ngofal Terry a Phyllis O'Neill gyda darlleniadau gan Trefor a Phyllis ac unawd agoriadol hyfryd gan Anne Montgomery. Roedd y canu yn llawn ysbryd a lleisiau'r dynion yn gryf. Gwnaed danteithion tymhorol phaned da gan y pwyllgor a chawsom sgwrsio cyfeillgar. Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Mair Rees Jones, Phyllis oedd llywydd y noson, a Terry oedd yn cyfeilio.

**IAITH FY MAM**

'Cymraeg yw'ch iaith, ond Dad, pam mae'n cael ei galw yn 'iaith fy mam'?

"Am fod dy fam, mae'n debyg Johnny, yn siarad llawer mwy ohoni".

## *Llwyddiant Richard Tŷ Capel a'i griw*



*Yn Aberaeron cynhaliwyd noson gwobrau WSRA (Welsh Sea Rowing Assoc). Enillodd Richard (mab Elan cyn-aelod Capel Bethel Heathfield Road) a'i griw o Llangwm, Sir Benfro dwy wobr - pencampwyr categori 'Supavet' (cyfanswm 200 blwydd yn y cwch) yng nghynghrair y de a pencampwyr categori 'Supavet' yn cyd-cynghrair (De a Gogledd). Mae'n nhw'n rhwyfo cychod hir Celtaidd (Celtic Longboats).*

*Myfyrdod*

# DISGWYL AM DDUW

Mae'r Grawys wrth y drws. Credaf, os ydym yn yr ysbryd iawn fedrem roi ein sylw yn gyfangwbl ar y digwyddiadau mawr ym mywyd Iesu Grist. Yn ogystal, fedrem roddi eu priodoldeb i'n bywyd ni ein hunain. Dyma'r adeg i afael ar y cyfle i dyfiant ysbrydol.

Anrheg gras yw tyfiant mewn bywyd ysbrydol ond mae'r gras yn dod os ydym wedi darparu ein hunain ar ei gyfer i'w dderbyn. Credaf, yn fy henaint, nad yw bywyd defosiynol yn dibynnu ar aml eiriau mewn gweddi er enghraifft. Yn wir, dydy ansawdd bywyd ddim yn dibynnu ar nifer o oriau a munudau a roddir mewn gweddi a myfyrdod OND yn y modd rydym yn barod i gymeryd ac ufuddhau, yn y modd rydym yn barod i gydweddu a gwneud, yn bwysicaf fyth y modd yr ydym yn gwylio ac aros. Mae'n rhaid dweud fel Samiwel gynt: "Dywed, Arglwydd, mae dy was yn clywed".

Mae disgwyl a gwylio ar Dduw yn mynnu ar ddigyblaeth a chysegriad gan ganolbwyntio ar rhain ond efallai fel dywedodd Hamlet "Ay, there's the rub". Mor anodd onid yw? – gan feddwl mor galed yw i ganolbwyntio ar bethau ysbrydol oherwydd yr ydym yn meddwl am y broblem o fyw – problemau fel dyledion, costau byw a phethau bi-bwys yn tynnu'n sylw. Problemau sy'n "*human*" a dim yn "bechodau". Mae disgwyl, fel dywedais, yn anodd ac fe gawn adegau mae'n rhaid gwneud penderfyniadau ac mae hyn yn anodd eto i'r rhai sy'n ceisio byw i Grist. A gaf i roi profiad personol i chi?

Gweinidog gyda'r Bedyddwyr y Parch R. C. Pugh oedd yng Nghaerleon ar Wysg lle roeddwn yn y Coleg hyfforddi athrawon. Yn aml fe ddaeth i'r coleg i gadw gwasanaeth ac yn aml ar gyfer ambell Seiat neu gyfeillach. Dyn annwyl iawn a chyda *"broad outlook on life"* ac yn ddiddorol dros ben. Cofiaf un tro iddo sôn am *"Waiting for God"* ac yn dweud bod adegau'n dod pan ddaw ar draws llwybr bywyd lawer o gwestiynau a buasai rhywun mewn penbleth pa gyfeiriad i gymeryd. Beth wnewch chi? A ddylech chi syrthio i ddyfnderodd anobaith? A ddylech chi droi'n ôl mewn llwfrdra neu ofn neu mynd ymlaen mewn anwybodaeth? Yn ostyngedig iawn fe awgrymodd ein bod yn DISGWYL mewn gweddi ac i alw ar Dduw "Ni wrthodir neb a ddaw" ac wedyn DISGWYL mewn ffydd ac i ddangos i'r Duw anfeidrol bod gennych yr hyder mwya ynddo. Yna eich bod yn aros i DDISGWYL mewn amynedd distaw iddo Ef. Ni anghofiaf ei eiriau olaf *"He never lets anyone down, you know"*. Cofiaf eto bennaeth y coleg G. P. Ambrose wrth ddiolch yn dweud wrthom ni ddarpar athrawon am i ni gael cyffwrdd yng nghyfoeth gras. Dyna ydyw'r profiad bendithiol a gogoneddus.

***ELWYN***

## O Sgrepan Sarnicol

i) ***Y Gŵr hunanol***

Ei gân yw Hunan o hyd,<br>"Fi" enfawr y cyfanfyd.

ii) ***Pregeth a Bendith:***

I mi mae'ch pregethu<br>O fendith fawr,<br>'Dwy byth yn methu<br>Cael gwsg am awr.

iii) ***Y Meddyg Teulu***

'Pawb yn fodlon', ebe'r Meddyg. 'Na, doctor nid oes neb o'ch cleifion yn achwyn arnoch, rwyf yn deall.'<br>Maent wedi mynd i gyd i ddweud eu cwynion i fyd arall?


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**<br>87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD<br>Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**<br>255 Speke Road, Liverpool L25 0NN<br>Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

# ATGOFION AM CHWEFROR 1958

Peth annisgwyl oedd gweld yn y rhifyn diwethaf o'r Angor fod y Golygydd wedi rhoi cymaint o sylw i dîmau pêl droed Lerpwl, yn hytrach na pwysleisio neges y Nadolig. Fel un yn byw ym Manceinion ers chwe deg o flynyddoedd, y peth mwyaf caredig y gallaf wneud yw cydymdeimlo â chwi yn Lerpwl yn eich sefyllfa presennol a symud ymlaen, gan gofio y gall pethau newid yn fuan iawn. Wrth i mi ysgrifennu, dau dîm o Fanceinion sydd ar y blaen yn y gynghrair, y glas a'r coch.

Mis Hydref 1957, wedi gadael yr Ysgol Ramadeg yng Nghaernarfon, deuthum i Fanceinion i astudio Mathemateg yn y Brifysgol, gan aros mewn 'digs' yn Fallowfield. 'Moss Side' oedd y capel Cymraeg agosaf, a Maine Road y cae pêl droed mwyaf cyfleus - dau le a fu'n dyngedfennol mewn hanes! Ond 'doedd dim gwrthdaro rhwng capel a phêl droed yn y dyddiau hynny, un ar y Sadwrn, y llall ar y Sul. Ac nid i Maine Road yn unig y gallwn fynd, ond bob yn ail Sadwrn i Old Trafford hefyd. Peth arbennig oedd gallu mynd i weld gêm canol-wythnos, dan oleuadau ar nos Fercher, ac un o'r rhai cyntaf i mi gofio fynd iddi oedd yn Old Trafford ag United yn chwarae yn erbyn Shamrock Rovers. Mae'r rhaglen gennyf hyd heddiw – Wood (Goalkeeper), Roger Byrne (Left Back), Tommy Taylor (Centre Forward) ac eraill y mae eu henwau yn gyfarwydd.

Rownd rhagarweiniol yn yr 'European Cup' y tymor hwnnw, ac efallai y synhwyrwch yn awr i ble mae'r stori yn mynd. Aeth United yn eu blaen yn y gystadleuaeth ac ymhen amser mynd i Belgrade (yn yr hen Yugoslavia) i chwarae Red Star. Wedi curo yno, ac ar eu ffordd gartref, glaniodd yr awyren yn Munich i gael tanwydd. Ar noson gaeafol ac eira ar lawr, methodd ail-godi i'r awyr ddwy waith a dychwelodd i'r cychwyn. Ar y trydydd tro, daeth ei siwrne i ben mewn trasiedi. Ar y cloc tu allan i Old Trafford fe welwch y dyddiad – 6ed Chwefror 1958.

Awyrgylch ryfedd oedd yn y ddinas y bore wedyn, pawb yn ddistaw rywsut, wedi eu syfrdanu, fel petaent wedi colli un o'r teulu. Dieithriaid ar y bws yn siarad â'i gilydd, pawb yn awyddus i glywed y newyddion diweddaraf. Pwy oedd wedi colli bywyd, pwy oedd wedi goroesi, pwy oedd yn ddifrifol wael. Gallwn ddweud mwy am yr wythnosau yn dilyn, yr angladdau, y newyddion am Duncan Edwards a Matt Busby, yr awyrgylch anhygoel pan oedd United (o dan Jimmy Murphy) yn dechrau chwarae unwaith eto, ond mae'r hanes yn gyfarwydd i bawb.

Beth a'm tarodd eleni oedd tebygrwydd yr awyrgylch yr adeg honno, chwe deg o flynyddoedd yn ôl erbyn rwan, i'r awyrgylch wedi'r ffrwdriad yn yr Arena ym mis Mai eleni. Yr un teimlad o golled, rhyw wagedd oddi mewn, yr angen i rannu teimladau ag eraill. Gresyn fod angen digwyddiad difrifol fel hyn i ddod




a ni yn agosach at ein gilydd fel cymuned. Ond mae bywyd yn mynd ymlaen ac ymhen amser mae pethau yn pigo i fyny, fel mae gwanwyn yn dilyn y gaeaf. Cofiwch hynny, chwi gefnogwyr Everton a Lerpwl!

***Elwyn Evans***










# Undeb Gorawl yn cynnal parti yn y Ganolfan, Penny Lane



Cafwyd prynhawn hynod o bleserus yn y Ganolfan ar y 25ain o Dachwedd pryd y cafwyd Te Prynhawn gyda adloniant gan rai o aelodau o'r Côr Cymraeg (Welsh Choral) a ffrindiau. Bu Sion Corn yno yn diddori plant o bob oedran. Adroddod Tim Evans hanes Albert a'r llew yn effeithiol iawn a chafwyd portread o ddrama Nadolig gan blant (fel Joyce Grenfell) gan Ruth Christie. Swynodd Annabell Manley ni drwy ganu 'Yfory' (Tomorrow) o'r sioe gerdd 'Annie'. Ymysg gweini a tywallt te canodd y merched (Margaret, Wena, Fiona, Eryl, Rhiannon ad Kath) garol a'r hen ffefryn, *Y Mae Afon*.

Codwyd dros £500 i gylla'r côr a diolchwn i bawb a gefnogodd y fenter.






***Tim Evans yn adrodd 'Albert and the Lion'***



## Cinio Gŵyl Ddewi

**Cymry Lerpwl**
**a hynny ar**
**Nos Iau, 1 Mawrth 2018**
**yng Nghlwb Golff Woolton**
**am 7.30 o'r gloch.**

***Gŵr Gwadd:***



Yr anfarwol Wynford Ellis Owen, Caerdydd – yr actor poblogaidd sydd y tu ôl i Syr Wynff ap Concord a Porc Peis Bach.

Drysau ar agor: 7 o'r gloch.
Digon o le i barcio
**Pris y tocyn: £25.**

Anfoner i
benatgarthdrive@talktalk.net
am docyn

## Cwis Rhifyn Rhagfyr 2017 / Ionawr 2018


**DIM YMATEB!**

Trist yw cyhoeddi na chafwyd un ymgais ar gyfer Cwis a baratowyd yn arbennig i ddarllenwyr *Yr Angor.* Mae hyn yn dweud yn glir iawn wrthym nad yw Cwis mor boblogaidd dyweder â Chystadleuaeth Limrig. Byddai'n dda gwybod pam fod hynny'n wir.
Bydd yn rhaid cael cais cyn paratoi Cwis arall.

***– Golygydd***

# *Dysgwyr Cymraeg a Ieuenctid Lerpwl*

**Lluniau o Noson y Dysgwyr (27 Tachwedd) yn y Ganolfan**





*Sian Hartley yn cyfarwyddo y dysgwyr*



*Elin yn ôl o Cameroon*



*Sgwrs fuddiol rhwng y tair*

*Gareth a'i gyfaill*





*Lauren a Delilah*

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*